

GWAHARDDDEDIG TAN 12PM 4 AWST 2016

Papur materion rhif 2

Iawndal troseddol

Cefndir

Mae'r ymchwiliad Atebolrwydd ac Iawndal yn un o 13 ymchwiliad a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2015. Yn ei datganiad diweddariad, esboniodd Cadeirydd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol y byddai'r Ymchwiliad yn archwilio i ba raddau mae gwasanaethau a datrysiadau cyfreithiol presennol sydd ar gael i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol yn darparu iawn yn effeithiol ar gyfer y niwed maent wedi ei ddioddef; ac i ba raddau mae'r mecanweithiau ar gyfer cefnogaeth ac iawndal yn helpu neu'n llesteirio cyflawniad yr hawl i wirionedd, atebolrwydd, iawndal a sicrwydd na fydd yn digwydd eto. Mae'n bwysig nodi, yn unol â chylch gorchwyl yr Ymchwiliad, mai dim ond honiadau o gam-drin rhywiol ble cafwyd methiant sefydliadol y mae'r papur hwn yn eu trafod.

Mae iawndal ariannol yn un ffordd ble gellir darparu iawn i ddioddefwyr a goroeswyr. Ynghyd ag ymglyfreitha sifil, hawliadau i'r Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol (y CICA, neu'r Bwrdd Iawndal Anafiadau Troseddol (CICB) gynt) yw'r prif fodd i ddioddefwyr a goroeswyr allu sicrhau iawndal ariannol. Yn ogystal, dan y Ddeddf Grymoedd Dedfrydu Llysoedd Troseddol 2000 ('PCC(S)A'), gall llys troseddol wneud gorchymyn iawndal parthed dioddefwr trosedd. Mae'r Ymchwiliad yn ceisio deall beth mae dioddefwyr a goroeswyr yn ystyried i fod iawn digonol, ac i ba raddau y gellir cyflawni hyn trwy'r prosesau hyn. Mae'r Ymchwiliad yn cydnabod y gall nifer o ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol geisio deilliannau sy'n ehangach nag unrhyw broses iawn na'r rhai y gellir eu cyflawni trwy iawndal troseddol. Er bod ffocws y papur hwn ar y broses iawndal troseddol, gobeithia'r Ymchwiliad y bydd y barnau a ddarparwyd yn bwydo i mewn i unrhyw ymchwiliad ehangach i ddiwygiadau posibl ac/neu ddewisiadau amgen i'r gweithdrefnau cyfredol ar gyfer iawndal troseddol.

Y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol

Sefydlwyd y cynllun gyntaf yn 1964 gan y Llywodraeth a'i weinyddu ar y pryd gan y CICB. Cyn 1996, gwnaethpwyd dyfarniadau yn ôl beth fyddai'r dioddefwr wedi ei dderbyn yn dilyn

hawliad sifil llwyddiannus. Ers Ebrill 1996, fe bennwyd y lefel o iawndal yn ôl tariff sefydlog gan y Senedd. Yn 1996, sefydlwyd y CICA i weinyddu'r cynllun hwn yng Nghymru a Lloegr (ac yn yr Alban). Diwygiwyd y cynllun yn 2001, 2008 a 2012.¹

Dan y cynllun cyfredol, gall unigolyn fod yn gymwys am ddyfarniad dan y cynllun seiliedig ar dariff os yw wedi dioddef iawndal troseddol y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i fod yn ddioddefwr uniongyrchol "trosedd treisgar". Gall trosedd o'r fath gynnwys ymosodiad rhywiol lle nad oedd yr unigolyn yn cydsynio. Mewn achosion o gam-drin plant yn rhywiol, gellir felly codi'r mater o gydsyniad. Yn atodol i'r meini prawf cymhwyster atodol, gall dioddefwr neu oroeswr wneud cais i'r CICA. Y rheol gyffredinol yw bod yn rhaid i'r CICA dderbyn cais cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol wedi'r digwyddiad a achosodd yr iawndal troseddol, ac mewn unrhyw achos o fewn dwy flynedd wedi dyddiad y digwyddiad hwnnw. Gall y CICA ymestyn y terfyn amser hwn.

Gellir atal ac/neu leihau dyfarniadau am sawl rheswm, yn cynnwys ble nad yw'r digwyddiad wedi ei adrodd i'r heddlu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol; neu os nad yw'r ymgeisydd wedi cydweithredu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol wrth ddod â'r ymosodwr i gyfiawnder; neu ble mae cymeriad yr ymgeisydd wedi ei ddangos trwy gollfarnau anhreuliedig, yn golygu nad yw'n briodol. Gall dyfarniadau gynnwys taliadau anafiadau a bennir yn unol â'r tariff a mathau eraill o daliad, yn cynnwys treuliau arbennig a cholli enillion. Gellir herio rhai penderfyniadau trwy adolygiad a phroses apeliadau.

Gorchmynion iawndal troseddol

Dan y PCC(S)A, gall llys troseddol wneud gorchymyn iawndal yn erbyn unigolyn a gollfarnwyd yn gofyn iddo/iddi dalu iawndal am anaf personol, colled neu ddifrod yn deillio o'r drosedd, neu unrhyw drosedd arall, ac a ystyrir gan y llys wrth bennu'r ddeddfyd. Rhaid i lys ystyried gwneud gorchymyn iawndal mewn unrhyw achos ble mae wedi ei rymuso i wneud hynny.

Yr Ymchwiliad

¹ Gellir gweld gwefan CICA ar:

<https://www.gov.uk/government/organisations/criminalinjuriescompensationauthority>

Mae'r Ymchwiliad yn ceisio deall beth mae pobl gyda phrofiad o iawndal troseddol yng Nghymru a Lloegr, p'un a yw ar lefel bersonol neu broffesiynol, yn ystyried i fod yr elfennau pwysicaf o weithdrefn iawndal troseddol effeithiol. Mae'r Ymchwiliad hefyd eisiau deall y rhesymau pam nad yw dioddefwyr a goroeswyr o reidrwydd wedi gwneud cais am iawndal troseddol, naill ai oherwydd nad oeddynt yn gallu gwneud hynny neu am eu bod wedi dewis peidio.

Mae'r Ymchwiliad yn gofyn am farnau ar os yw'r dulliau cyfredol o ddarparu iawndal ariannol i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol yn effeithiol, a allai gynnwys os:

- Yw'r broses yn hygyrch i'r holl ddioddefwyr a goroeswyr;
- Y dyfarnir swm priodol o iawndal;
- Yw penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn modd mor amserol â phosibl;
- A yw hawliadau yn cael eu hymchwilio'n deg a hawlwyd yn cael eu trin yn gyfartal;
- Yw ymgeiswyr yn cael eu trin gyda sensitifrwydd.

Rydym yn gofyn am gyflwyniadau ar effeithlonrwydd y gweithdrefnau cyfredol ar gyfer iawndal troseddol a diwygiadau posibl. Byddai'r Ymchwiliad yn croesawu eich barnau ar y materion canlynol. Ni ddylech deimlo bod angen i chi ateb pob adran, dim ond y rhai sy'n berthnasol i'ch profiad nac arbenigedd.

lawn yn gyffredinol

1. Pa ddeilliannau ddylai cynllun iawndal troseddol anelu at gyflawni ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol?
2. Yn eich profiad chi, pa mor bell mae'r ddwy weithdrefn gyfredol ar gyfer iawndal troseddol, h.y. y cynllun CICA a gorchmynion iawndal troseddol y llysoedd, yn cyflawni'r deilliannau hyn i ddioddefwyr a goroeswyr?
3. Pa mor bwysig yw'r canlynol: yr hawl i gynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol; yr hawl i ymchwiliad annibynnol a diduedd; yr hawl i'r gwirionedd ac atebolrwydd; iawndal; gwarantau na fydd yn digwydd eto; a gwasanaethau cefnogaeth?
4. Pa rai o'r uchod mae'r gweithdrefnau cyfredol ar gyfer iawndal troseddol wedi eu darparu'n llwyddiannus?

5. Os oes yna elfennau nad ydych wedi ei nodi fel rhai a gyflawnir yn llwyddiannus ar bob adeg, yna beth, yn eich profiad chi, fu'r rhesymau dros hyn?
6. Yn eich profiad chi, pam mae rhai dioddefwyr a goroeswyr wedi dewis peidio ymgeisio am iawndal troseddol?
7. Yn eich profiad chi, pam nad yw rhai dioddefwyr a goroeswyr yn gallu hawlio iawndal troseddol er eu bod eisiau gwneud hynny?
8. Beth yw manteision ac anfanteision y gweithdrefnau cyfredol ar gyfer iawndal troseddol fel modd y ddarparu iawn, o gymharu â'r broses hawliadau sifil?

Y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol (gweinyddir gan CICA)

Mae'r adran ganlynol yn delio'n benodol gyda rhai o'r materion cyfreithiol sy'n berthnasol i'r broses CICA.

9. A oes elfennau o'r broses CICA a allai rwystro cyflawniad iawn i ddioddefwyr a goroeswyr, ac os felly, ym mha ffordd? Yn benodol, croesewir am gyflwyniadau ar y materion canlynol:
 - a. Yr hawl i gyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol;
 - b. Darpariaethau cymhwyster, yn cynnwys:
 - i. Y diffiniad o 'drosedd dreisgar' a 'chydysyniad';
 - ii. Y meini prawf cymhwyster ar gyfer personau a oedd yn bresennol yn, ac yn dyst i, gam-drin unigolyn arall neu'r hyn a ddilynodd ar unwaith wedyn;
 - iii. Diffyg cymhwyster anafiadau cyn 1 Awst 1964, y dyddiad pan gafodd y cynllun ei gyflwyno am y tro cyntaf;
 - iv. Y 'rheolau un to' yn atal dyfarnu iawndal i ddioddefwyr oedd yn byw gyda'u hmosodwyr ar y pryd fel aelodau o'r un teulu.
 - c. Y broses ymgeisio, yn cynnwys:
 - i. Rôl yr heddlu;

- ii. Terfynau amser;
- iii. Costau gwneud cais, er enghraifft cyfarwyddo cyfreithwyr neu gael tystiolaeth arbenigol;
- iv. Adolygiadau ac apeliadau.
- d. Dan ba amgylchiadau y gellir atal neu leihau dyfarniad;
- e. Y berthynas rhwng y cynllun iawndal anafiadau troseddol a phrosesau iawndal eraill (sifil neu droseddol);
- f. Meintoli dyfarniadau;
- g. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol i wneud cais ar ran plant.

10. A oes elfennau eraill o'r broses CICA a allai rwystro cyflawniad atebolrwydd ac iawn i ddiodefwyr a goroeswyr? Os felly, beth ydynt?

Gorchmynion iawndal troseddol

11. I ba raddau mae gorchmynion iawndal troseddol a wneir gan y llysoedd troseddol yn darparu iawn digonol i ddiodefwyr a goroeswyr?

12. Beth yw'r manteision ac anfanteision o gymharu â'r broses hawliadau sifil ac/neu'r broses CICA?

Newidiadau, dulliau amgen neu rolau atodol ar gyfer unioniad

13. Yn eich profiad chi, a oes yna unrhyw beth sydd wedi ei gwneud yn anoddach i ddiodefwyr a goroeswyr gyflawni atebolrwydd ac iawn trwy'r gweithdrefnau cyfredol ar gyfer iawndal troseddol,? Os felly, beth? Beth ellid ei wneud i helpu pobl i drechu'r rhwystrau hyn?

14. Pa newidiadau allwn ni eu gwneud i'r gweithdrefnau cyfredol ar gyfer iawndal troseddol er mwyn ei gwneud yn haws i ddiodefwyr a goroeswyr gyflawni atebolrwydd ac iawn?

15. A oes unrhyw ddewisiadau amgen i'r gweithdrefnau cyfredol ar gyfer iawndal troseddol a fyddai'n gallu darparu iawn gwell i ddiodefwrwr a goroeswyr, naill ai eu hunain neu ar y cyd â'r gweithdrefnau cyfredol ar gyfer iawndal troseddol,? Os oes, beth ydyn nhw?

Cymorth

16. Pa wybodaeth, cymorth ac adnoddau ydych chi'n ymwybodol ohonynt i helpu diodefwrwr a goroeswyr (ac/neu eu teuluoedd) i gael mynediad at iawn trwy'r gweithdrefnau cyfredol ar gyfer iawndal troseddol?

17. Yn eich profiad chi, a yw pobl oedd angen y gwasanaethau a chefnogaeth yma wedi gallu cael mynediad atynt? Os na, pam?

18. Sut ellid gwella'r ddarpariaeth gyfredol o gefnogaeth yn eich barn chi?

Yn ogystal â'r materion a sefydlir uchod, anogir cyflwyniadau ar unrhyw agweddau o'r gweithdrefnau cyfredol ar gyfer iawndal troseddol, i'r fath raddau ag y maent yn berthnasol i atebolrwydd ac iawn ar gyfer diodefwrwr a goroeswyr.

Wrth wneud eich cyflwyniad, nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn. Rydym yn eich annog i ddelio â'r rhai sy'n berthnasol yn benodol i'ch profiad neu arbenigedd, yn bersonol a phroffesiynol. Yn eich cyflwyniadau, dylech ddioli eich ymatebion yn ôl gwahanol gwestiynau, a dynodi'n glir i ba gwestiwn neu gwestiynau ydych chi'n ymateb.

Cynhwyswch yr wybodaeth ganlynol ar yr holiadur atodedig yn rhan o'ch cyflwyniad:

GWAHARDDDEDIG TAN 12PM 4 AWST 2016

- Eich oed a'ch rhyw;
- P'un a ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn;
- Pa sefydliad yr ydych yn ei gynrychioli, os o gwbl;
- Beth yw eich swydd ac ers faint ydych chi wedi bod yn y swydd;

- P'un a hoffech i ni drin eich ymateb a manylion personol fel cyfrinachol, a'r rheswm dros hyn.

Bydd cyflwyniadau ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Ymchwiliad. Bydd yr Ymchwiliad hefyd yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r themâu allweddol o'r cyflwyniadau a dderbyniwyd. Bydd yr adroddiad hwn yn helpu hysbysu seminarau a gynhelir pan fydd y broses gyflwyno wedi cloi. Byddwn yn gwahodd ystod o gyfranwyr i'r seminarau hyn i ystyried mewn manylder y themâu a nodwyd o'r cyflwyniadau a dderbyniwyd.

Bydd y broses cyflwyniadau yn cloi am **hanner dydd ar 29 Medi 2016**.

Dylid gwneud cyflwyniadau yn Gymraeg neu Saesneg a'u cyflwyno naill ai:

- Yn electronig i crimcomp@iicsa.org.uk, neu
- Yn ysgrifenedig: **Criminal Compensation Issues Paper, PO Box 72289, Llundain, SW1P 9LF**

Cysylltwch â'r Ymchwiliad os ydych angen yr wybodaeth hon ar unrhyw fformat arall, megis Braille, print bras neu iaith arall. Gall yr Ymchwiliad dderbyn ffeiliau MP3 pe hoffech wneud cyflwyniad sain. Anfonwch eich ffeil sain at y cyfeiriad uchod.

Sylwer bod yr Ymchwiliad yn bwriadu cyhoeddi'r holl gyflwyniadau perthnasol. Nodwch ar yr holiad atodedig os nad ydych yn dymuno i'ch enw ymddangos yng nghyhoeddiad yr Ymchwiliad. Byddwn yn ailystyried unrhyw gais am gyfrinachedd yn unol â'n rhwymedigaethau statudol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r papurau materion neu'ch ymateb arfaethedig, cysylltwch â'r Ymchwiliad yn y cyfeiriad e-bost uchod.